



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

2008-09

Rhagfyr 2009

Awduron: Ceri Stradling a Geraint Norman

Cyf: 774A2009

Llythyr Blynyddol ar gyfer 2008-09

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

## Cynnwys

<b>Crynodeb</b>	4
<b>Adroddiad yr Archwilydd Penodedig</b>	
Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran adrodd ariannol a gwella perfformiad ond mae lle i wella ymhellach mewn nifer o feysydd	5
Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i weinyddu materion ariannol ac adrodd arnynt a sicrhau gwerth am arian o ran ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09, ond mae angen rhagor o welliannau mewn rhai meysydd	5
Mae Cynllun Gwella'r Awdurdod yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2008-09 ond mae lle i atgyfnerthu ei drefniadau adrodd a gwybodaeth am berfformiad	7
<b>Adroddiad y Rheolwr Cydberthynas</b>	
Mae perfformiad yr Awdurdod yn gwella ac mae'r Awdurdod yn ymateb yn gadarnhaol i'n harolygiad o Wasanaethau Cynllunio ond mae gwaith ychwanegol i'w gyflawni o hyd. Mae lle i wella trefniadau rheoli perfformiad a gwasanaeth TGCh yr Awdurdod	8
<b>Atodiadau</b>	
Rôl yr Archwilydd Penodedig a'r Rheolwr Cydberthynas ac amcangyfrif o ffioedd	11
Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2008-09 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau	12
Adroddiad yr Archwilydd ar y trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2008-09	13
Archwiliad o Gynllun Gwella 2009-10	14
Argymhellion i'r Archwilydd Cyffredinol a Gweinidogion Cymru	17

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r 'Datganiadau o Gyfrifoldebau' a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk)

## Crynodeb

1. Mae'r Llythyr Blynyddol hwn yn nodi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o waith archwilio ac arolygu a wnaed dros y 12 mis diwethaf.
2. Mae'r Archwilydd Penodedig wedi dod i'r casgliad bod Cyfrifon Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) yn rhoi darlun teg o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2009 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn honno.
3. Mae'r Rheolwr Cydberthynas wedi dod i'r casgliad bod perfformiad yr Awdurdod yn gwella gyda'r Awdurdod yn ymateb yn gadarnhaol i'n harolygiad o Wasanaethau Cynllunio ond mae gwaith ychwanegol i'w gyflawni o hyd. Mae lle i wella trefniadau rheoli perfformiad a gwasanaeth TGCh yr Awdurdod.
4. Mae Atodiad 1 yn nodi rolau'r Archwilydd Penodedig a'r Rheolwr Cydberthynas.

### **Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran adrodd ariannol a gwella perfformiad ond mae lle i wella ymhellach mewn nifer o feysydd**

#### **Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i weinyddu materion ariannol ac adrodd arnynt a sicrhau gwerth am arian o ran ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09, ond mae angen rhagor o welliannau mewn rhai meysydd**

5. Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:
  - rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion ac i sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
  - cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
  - paratoi Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion perthnasol;
  - sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
  - rhoi gwybodaeth i Lywodraeth y Cynulliad/Trysorlys EM sydd ei hangen i greu Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.
6. Mae'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu (y Cod) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
  - roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
  - adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
  - rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.
7. Yn ogystal â hyn, nodaf hefyd fy nghanfyddiadau isod yn dilyn adolygiad o bresenoldeb Aelodau.

#### **Paratowyd y Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion statudol ac mae'n rhoi darlun teg o drafodion a sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Fodd bynnag, dylid gwella'r broses o nodi balansau dyledwyr a chredydwyr ar ddiwedd y flwyddyn**

8. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn ffordd hanfodol i'r Awdurdod roi cyfrif am y modd y mae'n gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny.
9. Ar 30 Medi 2009 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu. Ar 15 Hydref 2009 rhoddais dystysgrif yn cadarnhau bod y gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi'i gwblhau cyn y terfyn amser sef 30 Medi 2009.

10. Cododd un mater pwysig o'n harchwiliad o'r Datganiad Cyfrifon. Nododd ein gwaith archwilio ar groniadau dyledwyr a chredydwyr bedwar trafodyn y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn y cyfnod anghywir. Diffyg dull systematig o nodi croniadau diwedd blwyddyn fel rhan o'r broses cau cyfrifon oedd yn gyfrifol am y gwallau hyn. Er fy mod yn fodlon na wnaeth y gwallau hyn arwain at gamddatganiadau perthnasol yn y Cyfrifon nac at wendid perthnasol yn eich rheolaethau mewnol, mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod prosesau yn cael eu rhoi ar waith i nodi pob trafodyn sy'n ymwneud â'r cyfnod cyfrifyddu.
11. Yn Llythyr Archwilio 2007-08, soniais am ddiffyg actiwaraidd y Gronfa Bensiwn, sef £1.5 miliwn ar 31 Mawrth 2008. Ar ddiwedd 2008-09, mae'r diffyg hwn wedi cynyddu i £3.4 miliwn. Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn parhau i fod yn uchel o ganlyniad i'r diffyg parhaus hwn. Bydd effaith hyn ar wariant refeniw yn y dyfodol yn gofyn am gynllunio gofalus a monitro parhaus.

**Roedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ond mae lle i wella'r wybodaeth ariannol a roddir i Aelodau ymhellach**

12. Mae'r meini prawf a ddefnyddiais i asesu trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2008-08 wedi'u nodi yn Atodiad 2.
13. Rwyf wedi dod i'r casgliad bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau yn 2008-09. Gweler fy nhystysgrif yn Atodiad 3.
14. Mae adroddiadau ar y gyllideb i Aelodau wedi gwella yn ystod y flwyddyn gan eu bod yn cynnwys gwariant gwirioneddol hyd yma. Fodd bynnag, gellid gwella fformat yr adroddiadau hyn i wella'r ffordd y cyflwynir adroddiad ar wariant o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**Roedd presenoldeb aelodau yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2009 yn dda iawn ar y cyfan**

15. Rydym wedi cynnal adolygiad o bresenoldeb Aelodau ym mhob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. At ddibenion y gwaith hwn, rydym wedi ystyried presenoldeb Aelodau yn y pwyllgorau canlynol:
- Awdurdod Parc Cenedlaethol;
  - Pwyllgor Cynllunio;
  - Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.
16. Mae presenoldeb cyson Aelodau yn gwella trefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod. Nododd ein hadolygiad lefel bresenoldeb o 84 y cant yng nghyfarfodydd y pwyllgorau hyn rhwng mis Ebrill 2008 a mis Mawrth 2009. Mae hyn yn uwch na'r presenoldeb cyfartalog, sef 78 y cant o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru.

## **Mae Cynllun Gwella'r Awdurdod yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi darlun cytbwys o'i berfformiad yn 2008-09 ond mae lle iddo atgyfnerthu ei drefniadau adrodd a gwybodaeth am berfformiad**

17. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a chanllawiau dilynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, mae'n rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.
18. Mae'n ofynnol i mi ystyried a yw'r Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion a chanllawiau statudol a chyflwyno adroddiad ar fy nghanfyddiadau, yn cynnwys adroddiad ar ôl cwblhau'r asesiad risg ar y cyd, fy archwiliad o Ddangosyddion Perfformiad yr Awdurdod ac ar ei drefniadau mesur perfformiad. Nodir cyfrifoldebau manwl, cwmpas ein gwaith a'r dystysgrif archwilio yn Atodiad 4.
19. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i mi, o dan Adran 7 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, mewn perthynas â Chynllun Gwella'r Awdurdod, argymell a ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad o'r Awdurdod o dan Adran 10A o'r Ddeddf. Mae hefyd yn ofynnol bob blwyddyn i mi argymell a ddylai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan adran 15 o'r Ddeddf.
20. Ar sail y gwaith archwilio a wnaed, nid wyf yn argymell y dylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Arolygiad Gwerth Gorau o'r Awdurdod o dan adran 10 o Ddeddf 1999; ac nid ydym yn argymell y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi cyfarwyddyd o dan adran 15 o Ddeddf 1999.
21. Mae fy argymhellion i'w gweld yn Atodiad 5. Mae angen gweithredu pellach yn y meysydd canlynol:
  - Mae angen gwella'r gwaith o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad drwy ddefnyddio ystod eang o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol.
  - Gellid gwella data cymharol â pharciau cenedlaethol eraill a sefydliadau perthnasol eraill i ddangos, mewn ffordd well, sut mae perfformiad yr Awdurdod wedi gwella
  - Gellid gwella strwythur y Cynllun Gwella drwy sicrhau cysylltiadau gwell rhwng elfennau gwahanol o'r ddogfen. Er enghraifft, mae adrannau penodol yn y Cynllun sy'n ymwneud ag amcanion, gwybodaeth ariannol, gwybodaeth am berfformiad, mesurau a thargedau. Fodd bynnag, byddai gan y sawl sy'n darllen y Cynllun ddealltwriaeth well o berfformiad yr Awdurdod pe bai cysylltiadau penodol rhwng adrannau gwahanol o'r ddogfen.

### **Mae perfformiad yr Awdurdod yn gwella gyda'r Awdurdod yn ymateb yn gadarnhaol i'n harolygiad o Wasanaethau Cynllunio ond mae gwaith ychwanegol i'w gyflawni o hyd. Mae lle i wella trefniadau rheoli perfformiad a gwasanaeth TGCh yr Awdurdod**

**Ym mis Mai 2009, nodwyd bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran llunio Cynllun Datblygu Lleol ac o ran gwaith ar dreftadaeth adeiledig. O ran Rheoli Datblygiadau, roedd boddhad cwsmeriaid yn uchel ond er bod cyflymder y prosesu wedi gwella ers 2004-05, nid oedd yn cymharu'n ffafriol ag Awdurdodau Cynllunio eraill yng Nghymru. Mae'r Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i'n harolygiad ac awgryma tystiolaeth ddiweddar fod gwelliannau wedi'u gwneud a bod gwelliannau pellach ar y gweill**

- 22.** Mae'r Awdurdod yn awdurdod cynllunio lleol. Mae ganddo ddyletswydd i baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu (a elwir yn CDLI bellach) sy'n amlinellu polisi cynllunio'r Awdurdod ar gyfer datblygu a defnyddio tir. Mae ganddo bwerau i ddiogelu treftadaeth adeiledig ei ardal ac mae'n ofynnol iddo reoli datblygiadau drwy benderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio a gorfodi rheoliadau cynllunio. Y Gwasanaeth Cynllunio (y Gwasanaeth) sy'n cyflawni'r holl swyddogaethau hyn fel arfer, er na chânt eu trefnu yn yr un ffordd o reidrwydd ymhob awdurdod cynllunio lleol.
- 23.** Yn 2005, gwnaethom gynnal asesiad sylfaenol o Wasanaeth Cynllunio'r Awdurdod. Nod y gwaith hwn oedd cynorthwyo'r Awdurdod i wella'r Gwasanaeth yng nghyd-destun menter Llywodraeth y Cynulliad sef 'Cynllunio: Cyflawni dros Gymru'. Yn ôl disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad dylai gwasanaethau cynllunio yng Nghymru:
- fod yn agored ac yn hawdd eu defnyddio;
  - cael eu darparu mewn ffordd deg a thryloyw;
  - darparu polisiâu cynllunio sy'n gyfredol ac sy'n integreiddio â pholisiâu eraill;
  - gwella ansawdd ac ymatebolrwydd eu gwasanaethau'n barhaus;
  - ennyn hyder y cyhoedd a busnesau.



24. Ym mis Mai 2009, gwnaethom arolygu gwasanaeth Cynllunio'r Awdurdod. Asesodd ein hadroddiad berfformiad presennol ac ystyriodd a oedd yr Awdurdod yn debygol o wneud gwelliannau parhaus yn y gwasanaeth Cynllunio o lefel y perfformiad a nodwyd ar adeg yr asesiad sylfaenol yn 2005.
25. Daethom i'r casgliad bod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd da o ran llunio CDLI ac o ran ei waith ar dreftadaeth adeiledig. O ran Rheoli Datblygiadau, mae boddhad cwsmeriaid yn uchel ac mae cyflymder y gwaith o brosesu ceisiadau cynllunio wedi gwella ychydig ers 2004-05 ond nid yw'n cymharu'n ffafriol â gweddill Cymru. Mae'r Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i'n harolygiad ac awgryma tystiolaeth ddiweddar fod gwelliannau wedi'u gwneud a bod gwelliannau pellach ar y gweill. Mae'r Awdurdod yn cydnabod hyn ac yn rhoi trefniadau ar waith a ddylai gyflymu'r gwasanaeth heb effeithio ar safon.
26. Nodir isod yr argymhellion allweddol sy'n deillio o'n hadroddiad ym mis Mai 2009 y mae'r Awdurdod wedi'u derbyn yn llawn. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad dilynol ganol 2010.

A1	Dylai'r Awdurdod barhau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni ei darged sef cyflwyno'r CDLI erbyn diwedd 2010.
A2	Dylai'r ôl-groniad o geisiadau cynllunio sydd wedi bod gyda'r Awdurdod am fwy nag wyth wythnos gael ei leihau o fewn amserlen benodol er mwyn cyflawni targed cyfredol yr Awdurdod sef penderfynu ar 60 y cant o'r holl geisiadau o fewn wyth wythnos.
A3	O fewn y chwe mis nesaf, dylai'r Awdurdod gymeradwyo trefniadau wrth gefn a all lenwi, yn gyflym, unrhyw fylchau mewn gallu ac adnoddau yn y dyfodol neu unrhyw gynnydd yn y llwyth gwaith.
A4	O fewn y 12 mis nesaf dylai'r Awdurdod weithredu'n llawn yr argymhellion sy'n deillio o'r 'archwiliad iechyd' o Reoli Datblygiadau mewn perthynas â: <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth gyhoeddus am faterion cynllunio;</li> <li>• systemau swyddfa gefn;</li> <li>• cyngor cyn cyflwyno cais;</li> <li>• prosesu ceisiadau cynllunio;</li> <li>• boddhad cwsmeriaid;</li> <li>• materion staffio;</li> <li>• y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.</li> </ul>
A5	O fewn y chwe mis nesaf dylai'r Awdurdod gymeradwyo canlyniadau cyflawnadwy a mesuradwy o ran Rheoli Datblygiadau sy'n ymwneud â boddhad cwsmeriaid, ymatebolrwydd, ansawdd, cysondeb a gwerth am arian. Unwaith y cytunir ar y canlyniadau hyn, dylid diweddarau cynlluniau gweithredu er mwyn nodi'n glir pa gamau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.
A6	O fewn y 12 mis nesaf dylai'r Awdurdod weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau addas eraill er mwyn datblygu data cymharol cadarn a'i ddefnyddio i ddangos ei fod yn darparu gwerth am arian.

## **Mae'r trefniadau ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn gadarn, ond mae lle i wella lefel y gydymffurfiaeth â'r safonau rheoli diogelwch gwybodaeth**

27. Rydym wedi holi 'a oes mesurau priodol ar waith i ddiogelu asedau gwybodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn effeithiol?'
28. Mae lefel dda o gydymffurfiaeth â'r 10 o reolaethau yn y Safonau Rheoli Diogelwch Gwybodaeth. Ymhlith y meysydd lle mae angen gweithredu pellach mae:
  - nid oes 'Fforwm Diogelu Gwybodaeth' nac asesiad blynyddol o risgiau diogelwch;
  - mae gwybodaeth electronig a gwybodaeth ar bapur yn cael eu trin yn wahanol; mae angen gwella hyfforddiant mewn rhai meysydd;
  - mae angen ffurfioli gweithdrefnau.

## **Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol wedi datblygu yn ystod y flwyddyn, ond bydd angen i'r Awdurdod atgyfnerthu ei ddull o weithredu er mwyn bodloni'r gofynion statudol newydd**

29. Yn ystod 2008-09, cynhaliodd yr Awdurdod adolygiad o'i amcanion corfforaethol. Lluniwyd set o amcanion corfforaethol newydd ac fe'i hategir gan amrywiaeth o fesurau a champau gweithredu gofynnol i ddangos bod perfformiad yn gwella. Roedd gan aelodau o'r Awdurdod ran allweddol i'w chwarae wrth ddatblygu'r amcanion hyn a chynhaliwyd ymgynghoriad manwl â rhanddeiliaid allweddol hefyd.
30. Er bod rhai o'r mesurau hanesyddol wedi bodloni meini prawf Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol (CAMPUS), ni ellid categoreiddio llawer o'r camau gweithredu a nodwyd yn y ffordd hon. Wrth i fesurau a dangosyddion pellach gael eu datblygu i ategu'r Amcanion Corfforaethol newydd, mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod y meini prawf CAMPUS wedi'u bodloni. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i ddangos yn fwy eglur ei fod wedi cyflawni'r amcanion a bennwyd ganddo ar gyfer ei hun.
31. Mae'r amcanion a'r mesurau perfformiad newydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau adrannol a'r amcanion perfformiad unigol ac mae hyn yn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r amcanion corfforaethol. Fodd bynnag, megis dechrau y mae nifer o'r arferion diwygiedig hyn o hyd ac mae angen rhagor o waith mewn perthynas â meysydd a amlinellwyd ym mharagraff 21.
32. Yn 2009-10, bydd yn rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion mesur llywodraeth leol y Cynulliad ac yn hyn o beth mae wedi ein cynnwys ar gam cynnar er mwyn paratoi ar gyfer hyn.
33. Bydd angen i'r Awdurdod barhau i ddatblygu'r trefniadau monitro perfformiad ac ansawdd y wybodaeth am berfformiad i sicrhau bod y gofynion statudol newydd hyn yn cael eu bodloni.

## Atodiad 1

## Rôl yr Archwilydd Penodedig a'r Rheolwr Cydberthynas ac amcangyfrif o ffioedd

Ysgrifennwyd y Llythyr hwn gan:

- yr Archwilydd Penodedig;
- y Rheolwr Cydberthynas ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

Mae Statud a'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Penodedig wneud y canlynol:

- rhoi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau;
- nodi a yw'r Cynllun Gwella yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.

At hynny, mae'r Archwilydd Penodedig yn adolygu ac yn cyflwyno adroddiad ar geisiadau am grant a ffurflenni, gan gynnwys Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, a baratowyd gan yr Awdurdod.

Mae'r Rheolwr Cydberthynas yn gweithio i'r Archwilydd Cyffredinol i geisio sicrhau bod astudiaethau a swyddogaethau arolygu'r Archwilydd Cyffredinol yn cael eu cydgysylltu â gwaith rheoleiddwyr perthnasol.

Nodwyd y gwaith archwilio ac arolygu a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn yng Nghynllun Rheoliadol 2008-09. Ceir rhagor o fanylion am agweddau penodol ar y gwaith a gyflawnwyd yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffioedd ar gyfer 2008-09 fod yn unol â'r rheini a nodir yn eich Cynllun Rheoliadol.

## Atodiad 2

## Meini prawf ar gyfer asesu trefniadau'r Awdurdod yn ystod 2008-09 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Trefniadau	Cwestiynau ar drefniadau
<b>Pennu amcanion, llunio polisïau a gwneud penderfyniadau</b>	A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer pennu, adolygu a gweithredu ei amcanion strategol a gweithredol?
<b>Diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr</b>	A yw'r Awdurdod wedi sefydlu modd i gyfathrebu â defnyddwyr a threthdalwyr a rhanddeiliaid eraill yn cynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol ynglŷn â gwasanaethau yn cael eu hystyried?
<b>Cydymffurfiaeth â pholisïau sefydledig</b>	A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, yn cynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol?
<b>Rheoli risgiau gweithredol ac ariannol</b>	A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i reoli ei risgiau busnes o bwys?
<b>Rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill</b>	A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i werthuso a gwella'r gwerth am arian y mae'n ei gyflawni o ran ei ddefnydd o adnoddau?
	A yw'r Awdurdod wedi rhoi strategaeth ariannol, cyllidebau a rhaglen gyfalaf tymor canolig ar waith ac iddynt sail gadarn a chyda'r nod o gyflawni ei flaenoriaethau strategol?
	A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod ei wariant yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael?
	A yw'r Awdurdod wedi adolygu ei weithdrefnau ar gyfer rheoli'r trysorlys, a gwneud newidiadau iddynt lle bo hynny'n briodol, o ganlyniad i'r dirywiad economaidd a natur fregus y system fancio?
	A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau adferol lle bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i uwch reolwyr a'r Awdurdod?
	A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheoli ei sail asedau?
<b>Monitro ac adolygu perfformiad</b>	A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer monitro perfformiad a chraffu arno, i nodi amrywiannau posibl yn erbyn amcanion, safonau a thargedau strategol, ar gyfer gweithredu lle y bo angen, a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod?
	A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro ansawdd ei wybodaeth gyhoeddedig am berfformiad, ac i gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i aelodau'r Awdurdod?
<b>Safonau ymddygiad priodol</b>	A yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith gyda'r nod o hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth gynnal ei fusnes?

## Atodiad 3

## Adroddiad yr Archwilydd ar y trefniadau i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau yn ystod 2008-09

**Casgliad ar drefniadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009 ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.**

### Cyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, ac i sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd

Mae cyfrifoldeb arnaf o dan Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004, i fodloni fy hun o'm harchwiliad o gyfrifon blynyddol yr Awdurdod ac fel arall a yw wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. At ddibenion fy ngwaith yn y maes hwn, rwyf wedi asesu 'trefniadau priodol' yn bennaf fel trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol sefydliad, y diffinnir elfennau o bwys ohonynt ym mharagraff 48 o God yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyflwynaf adroddiad os yw materion o bwys wedi dod i'm sylw sy'n fy atal rhag dod i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol o'r fath. Wrth ymgymryd â'm gwaith, nid wyf wedi ystyried a yw'r trefniadau sydd ar waith yn cynrychioli'r holl drefniadau a allai fod ar waith. Nid yw'n ofynnol ychwaith i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried fel rhan o'r agwedd hon ar fy ngwaith, effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn ystod y flwyddyn a adolygir.

### Casgliad

Mae'r casgliad canlynol yn seiliedig ar waith a gynhaliwyd fel rhan o'm harchwiliad o gyfrifon 2008-09, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall a ystyriwyd yn berthnasol gennyf, ac mae'n gyfyngedig i'r gwaith hwnnw. Rwyf yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Rwyf wedi codi materion amrywiol gyda'r Awdurdod, ac wedi gwneud argymhellion i wella ei drefniadau. Trafodir ac esbonnir y materion hyn ymhellach yn y Llythyr Blynyddol.

Ceri Stradling

Archwilydd Penodedig

Tachwedd 2009

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

## Atodiad 4

## Archwiliad o Gynllun Gwella 2009-10

### Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn unol ag adran 7 o Ddeddf 1999 a Chod yr Archwilydd Cyffredinol.

### Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r archwilwyr

O dan Ddeddf 1999 a chanllawiau statudol, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau yn crynhoi:

- ei amcanion strategol hirdymor;
- ei asesiadau o berfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- y materion allweddol i'w gwella sydd i'w cyflawni mewn blynyddoedd i ddod;
- manylion am ble i gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am gynllunio busnes.

O dan ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad, gelwir y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau statudol yn Gynllun Gwella. Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun gael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, fan bellaf.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun ac am y wybodaeth a'r asesiadau a nodir ynddo. Dylai rhaglen waith yr Awdurdod yn y dyfodol a nodir yn y Cynllun fod yn gysylltiedig â chanlyniadau'r asesiad risg wedi'i ddiweddarau.

Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sefydlu systemau rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol briodol y mae'r wybodaeth a'r asesiadau yn ei Gynllun yn deillio ohonynt ac am sicrhau ei fod yn darparu digon o allu ac adnoddau i reoli newid a gwelliant. Rhagnodir ffurf a chynnwys y Cynllun gan ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad.

Fel archwilydd penodedig yr Awdurdod, mae'n ofynnol mi, o dan adran 7 o Ddeddf 1999, gynnal archwiliad o'r Cynllun, i ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cynllun wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â'r gofynion statudol a nodwyd yn adran 6 o Ddeddf 1999 a chanllawiau statudol. Lle y bo'n briodol, mae'n ofynnol i mi argymhell:

- sut y dylid diwygio'r Cynllun fel ei fod yn bodloni gofynion statudol;
- pa weithdrefnau i'w dilyn mewn cysylltiad â'r Cynllun.

Mae hefyd yn ofynnol i mi argymhell:

- A ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad o'r Awdurdod o dan adran 10A o Ddeddf 1999.
- A ddylai Llywodraeth y Cynulliad roi cyfarwyddyd o dan adran 15 o Ddeddf 1999 – er enghraifft, cyfarwyddo'r Awdurdod i ddiwygio ei Gynllun, cynnal adolygiad o swyddogaeth benodol neu gynnal ymchwiliad lleol. Ceir manylion ynglŷn â'r holl gyfarwyddiadau posibl yn Neddf 1999.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

Cynlluniais a chyflawnais fy ngwaith er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adran 7 o Ddeddf 1999.

At ddibenion fy adroddiad, rwyf wedi dehongli bod cydymffurfiaeth â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn y ddogfen *Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella: Canllawiau i Awdurdodau Lleol*, yn ddigon i fodloni'r gofynion statudol o dan adran 6 o Ddeddf 1999.

Nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth, na realaeth na chyflawniad y Cynllun a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Roedd fy ngwaith felly yn cynnwys adolygiad ac asesiad o'r Cynllun, a, lle y bo'n briodol, archwiliad ar sail prawf o dystiolaeth berthnasol, a oedd yn ddigon i fodloni fy hunan bod y Cynllun yn cynnwys y materion hynny a ragnodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau statudol a bod y trefniadau i gyhoeddi'r Cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

Er mwyn cadarnhau a ddylwn wneud argymhellion ar weithdrefnau i'w dilyn mewn perthynas â'r Cynllun, roedd fy ngwaith yn cynnwys:

- adolygiad ac asesiad a, lle y bo'n briodol, archwiliad ar sail prawf o dystiolaeth berthnasol i ddigonolrwydd y systemau sydd ar waith gan yr Awdurdod ar gyfer casglu a chofnodi gwybodaeth benodedig am berfformiad;
- profi Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth Cenedlaethol penodol ar sail meini prawf a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adran 7 o Ddeddf 1999 i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Cynlluniais fy ngwaith er mwyn casglu digon o dystiolaeth i fodloni fy hunan bod y Cynllun yn cynnwys y materion hynny a ragnodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau statudol a bod y trefniadau i gyhoeddi'r Cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

## Argymhellion eraill o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999

Rhaid i'r Awdurdod ymateb yn ffurfiol i'r argymhellion statudol hyn o fewn 30 diwrnod gwaith.

### Argymhelliad Statudol

- A1 Mae'r Awdurdod wedi gwneud rhywfaint o welliannau yn ei fframwaith rheoli perfformiad. Fodd bynnag, gellir cyflawni gwelliannau pellach. Mae'r meysydd ar gyfer gwella ymhellach fel a ganlyn:
- Er bod gan rai o'r amcanion gamau gweithredu sy'n bodloni meini prawf CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol), ni ellir ystyried llawer o'r camau gweithredu a nodwyd yn y ffordd hon. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r Awdurdod ddangos ei fod wedi cyflawni'r amcanion a bennwyd ganddo ar gyfer ei hun.
  - Mae angen gwella'r gwaith o gyflwyno adroddiadau ar berfformiad drwy ddefnyddio ystod eang o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol.
  - Gellid gwella data cymharol â pharciau cenedlaethol eraill a sefydliadau perthnasol eraill i ddangos, mewn ffordd well, sut mae perfformiad yr Awdurdod wedi gwella.
  - Gellid gwella strwythur y Cynllun Gwella drwy sicrhau cysylltiadau gwell rhwng elfennau gwahanol o'r ddogfen. Er enghraifft, mae adrannau penodol yn y Cynllun sy'n ymwneud ag amcanion, gwybodaeth ariannol, gwybodaeth am berfformiad, mesurau a thargedau.
- Fodd bynnag, byddai gan y sawl sy'n darllen y ddogfen ddealltwriaeth well o berfformiad yr Awdurdod pe bai cysylltiadau penodol rhwng adrannau gwahanol o'r ddogfen.



## Atodiad 5

## Argymhellion i'r Archwilydd Cyffredinol a Gweinidogion Cymru

Fel yr Archwilydd Penodedig, bob blwyddyn mae'n ofynnol i mi, o dan Adran 7 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, mewn perthynas â chynllun gwella'r Awdurdod, argymell a ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad o'r Awdurdod o dan Adran 10A o'r Ddeddf. Mae hefyd yn ofynnol bob blwyddyn i mi argymell a ddylai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o dan adran 15 o'r Ddeddf.

Ni nodais yr angen am unrhyw arolygiadau statudol yn 2008-09, ac felly argymhellais na ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal unrhyw arolygiadau o'r Awdurdod. Hefyd, argymhellaf na ddylai Gweinidogion Cymru roi unrhyw gyfarwyddyd o dan adran 15 o'r Ddeddf ar hyn o bryd.

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ  
Ffôn: 029 2032 0500  
Ffacs: 029 2032 0600  
Ffôn Testun: 029 2032 0660  
E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)  
Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)